

Y TESTAMENT NEWYDD AR EI NEWYDD WE!

Ydych chi'n teimlo weithiau bod iaith y Beibl yn hen-ffasiwn a bod angen defnyddio iaith a dulliau newydd i gyfleu neges y Beibl yn yr 21ain ganrif?

Un oedd yn teimlo fel hyn oedd Arfon Jones, Swyddog Maes 'Gobaith i Gymru' ac

felly aeth ati i lunio fersiwn o'r Testament Newydd mewn iaith syml a'i roi ar y We. Dyma ran o'r cyflwyniad ar y wefan:

'Mae beibl.net yn aralleiriad cwbl wreiddiol o'r Testament Newydd. Dydy o ddim yn ddiwygiad o unrhyw fersiwn Cymraeg, nac yn gyfieithiad o unrhyw fersiwn Saesneg. . . . Dechreuodd y gwaith fel ymdrech i fynegi neges y Testament Newydd mewn iaith lafar syml.'

Gallwch chithau bellach ddarllen y fersiwn newydd hwn yn www.beibl.net.

Mae Buddug James Jones yn gobeithio trefnu ymweliadau ag Ynys Elli, Soar y Mynydd, Yr Wyddfa, ac ym mis Medi - trip i Lundain.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Buddug (828231).

Mynwent y Garn


Dymuna Swyddogion y Garn ddiolch yn gynnes i Mr Emlyn Rees am ei rodd o fainc hyfryd i ran ucha'r fynwent.

Dymuna Mr Eddie Jones, gofalwr y fynwent, ddiolch yn fawr i Mr Alwyn Jones am ddod â llwyth o bridd i dacluso blaen y fynwent. Mae'n diolch hefyd i Mrs Beryl Hughes am ei chymorth i drefnu'r gwirfoddolwyr i wastatáu'r pridd: John a Richard Thomas Evans, Owain, Ifor a Rheinallt Morgan a Mr Trefor Evans.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 15fed Medi 2002 i:

Mr Dewi G Hughes

Bod Hywel



(828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes


14 Maes y Garn

(828662)

Marian_Hughes@btinternet.com

GAIR O'R GARN

CYLCHLYTHYR
EGLWYS Y
GARN,
BOW STREET



Rhif 6
Haf 2002

Duw cariad yw

Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street



(01970 828006)

Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147)



